

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Cwm Banwy

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae hapusrwydd, bodlonrwydd a mwynhad llwyr y disgyblion yn eu dysgu yn nodweddion trawiadol o ethos a darpariaeth Ysgol Cwm Banwy sy'n treiddio trwy bob agwedd o waith yr ysgol. Mae ymddygiad y disgyblion yn wych ac maent yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi hynod ganmoladwy. Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gryf ac mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel wrth eu gwaith a'u chwarae. Maent yn gyffrous wrth siarad am eu profiadau ac yn hynod falch o'u hysgol.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith a digidol. Maent yn cymhwyso eu medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm ac ar draws ystod eang o gyd-destunau diddorol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn gryfder amlwg. Mae disgyblion yn ymroi'n frwdfrydig i'r profiadau cydlynus a dychmygus a gânt ac maent yn gwneud cynnydd arbennig o gryf yn yr agwedd hon o'u haddysg.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyffrous sy'n tanio dychymyg ac ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn sefydlu perthynas waith gefnogol a chynhyrchiol â'r disgyblion ac mae'r ardaloedd dysgu yn fannau byrlymus a llawn chwilfrydedd. Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu'n gryf ac mae athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu effeithiol sy'n hybu cymhelliant a chynnydd disgyblion. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol a chadarn sy'n dyheu am y profiadau dysgu a'r lles gorau posibl ar gyfer bob disgybl. Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar ac effeithiol sy'n ymdrechu'n ddiwyd i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl. Mae'r llywodraethwyr yn diwallu eu rolau a'u cyfrifoldebau'n fedrus ac maent yn eiriolwyr diffuant dros yr ysgol. Maent yn darparu cefnogaeth bwrpasol a diflino i arweinwyr a staff ynghyd â sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadnoddau.

# Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gwblhau eu tasgau a sut i gyflwyno eu gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â:**

- **Datblygu medrau rhifedd disgyblion trwy ddarparu profiadau dilys cyfoethog**
- **Cynllunio ysgol gyfan ar gyfer datblygu’r medrau ar draws y cwricwlwm**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cwm Banwy |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 50 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 40 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 10 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 10.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 26.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 64.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/05/2024 |
| Arolygiad cyntaf yr ysgol ers ei hagor ym Medi 2020 | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.